OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *20 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 20 Ebrill 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (St Clears Roundabout, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *14 April 2020* |
| *Coming into force* | *20 April 2020* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (St Clears Roundabout, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 20 April 2020.

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A40 London to Fishguard trunk road as follows;

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 20 Ebrill 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r A40 Llundain i Abergwaun fel a ganlyn;

i. y darn o ffordd unffrwd y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r Ffordd Sirol sy'n arwain i Bwll Trap hyd at ei chyffordd â Chylchfan Sanclêr.

ii. y darn o ffordd ddeuol y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gylchfan Sanclêr hyd at ganolbwynt y gyffordd honno.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Ebrill 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

i. the length of the single carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the County Road leading to Pwll Trap to its junction with St Clears Roundabout;

ii. the length of the dual carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at St Clears Roundabout to the centre-point of that said junction;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means the period commencing at 19:00 on the 20 April 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 14 April 2020

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CYLCHFAN SANCLÊR, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, wrth Gylchfan Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin.

## THE A40 TRUNK ROAD (ST CLEARS ROUNDABOUT, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at St Clears Roundabout in the County of Carmarthenshire.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A40 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill hefyd yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (19:00 o'r gloch tan 06:00 o'r gloch) o 20 Ebrill 2020 tan 29 Ebrill 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Caiff cerbydau â llwythi annormal eu gwahardd rhag defnyddio'r llwybrau eraill a chânt eu parcio dros nos mewn cilfannau hyd nes bod y system rheoli traffig wedi ei symud ymaith. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn hysbysu llwythi llydan am y cyfyngiad.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A40 specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight (19:00 hours to 06:00 hours) from 20 April 2020 until 29 April 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Vehicles with abnormal loads will be prohibited from using the alternative routes and will be parked up into laybys overnight until the traffic management is removed. Dyfed Powys Police will notify wide loads of the restriction.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o ffordd ddeuol y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at y gyffordd â Chylchfan Sanclêr.

2. Y darn o ffordd unffrwd y gefnffordd sy'n ymestyn o ganol ei chyffordd â Phwll Trap hyd at ei chyffordd â Chylchfan Sanclêr.

Y llwybr arall i gerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd gadael yr A40 ac ymuno â'r A4066, yna troi i'r chwith a pharhau ar yr A4066 drwy oleuadau traffig Sanclêr i Bwll Trap ac ailymuno â'r A40 tua'r

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Pedestrians & Alternative Routes

1. The length of the dual carriageway of the trunk road that extend from the nosing of the westbound exit slip road to the junction with St Clears Roundabout.

2. The length of the single carriageway of the trunk road that extends from the centre of its junction with Pwll Trap to its junction with St Clears Roundabout.

The alternative route for all westbound vehicles will be to exit the A40 onto the A4066, then turn left and continue on the A4066 through St Clears Traffic

gorllewin ym Mhwll Trap. I’r gwrthwyneb i draffig sy’n teithio tua’r dwyrain ond bod rhaid troi i’r chwith i ddilyn yr A40 tua’r dwyrain.

Y llwybr arall i gerbydau sy’n dymuno teithio tua’r gorllewin ar yr A477 o Gylchfan Sanclêr fydd dilyn y llwybr dargyfeirio uchod hyd at oleuadau traffig Sanclêr a throi i’r chwith ar hyd Heol Dinbych-y-pysgod hyd at Gylchfan Sanclêr. I’r gwrthwyneb i draffig sy’n teithio tua’r dwyrain ond bod rhaid troi i’r chwith i ddilyn yr A40 tua’r dwyrain.

Signals to Pwll Trap and re-join the A40 westbound at Pwll Trap. Vice versa for eastbound traffic but turn left onto eastbound A40.

The alternative route for vehicles wishing to travel west on the A477 from St Clears Roundabout, will be to follow the diversion route above to St Clears traffic signals & turn left along Tenby Road to St Clears Roundabout. Vice versa for eastbound traffic but turn left onto eastbound A40.